LIVING STREETS

DEWCH I NI GERDDED I'R YSGOL

# Llysgennad WOW



## Disgrifiad Swydd



**Hoffech chi gefnogi cyd-ddisgyblion ac athrawon i redeg WOW yn eich ysgol? Darllenwch y disgrifiad swydd hwn i ddysgu mwy am Living Streets a rôl Llysgennad WOW.**



### Living Streets

Living Streets yw elusen y DU sy'n rhedeg WOW, yr her cerdded i'r ysgol. Mae dros 1,500 o ysgolion a mwy na hanner miliwn o ddisgyblion yn cerdded i'r ysgol fel rhan o WOW ac mae eich ysgol chi'n un ohonyn nhw!

### Beth yw WOW??

Her cerdded i'r ysgol yw WOW. Gallwch chi a'ch cyd-ddisgyblion gofnodi sut rydych chi'n teithio i'r ysgol bob dydd ar Draciwr Teithio rhyngweithiol WOW. Os byddwch chi'n teithio'n llesol (cerdded/troelli, seiclo, sgwtera neu barcio a cherdded) o leiaf unwaith yr wythnos am fis, cewch eich gwobrwyo â bathodyn arbennig WOW y mae modd ei gasglu.

## ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU:

## BETH MAE ANGEN I CHI EI WNEUD?



**1. Lansio WOW**
Helpwch i lansio WOW drwy gyflwyno mewn gwasanaeth ysgol.

**2. Helpwch i gofnodi'n ddyddiol ar Draciwr Teithio WOW**
Atgoffwch eich cyd-ddisgyblion i gofnodi eu teithiau dyddiol i'r ysgol ar Draciwr Teithio WOW.

**3. Dosbarthwch fathodynnau**
Dosbarthwch fathodynnau misol i bob dosbarth.

**4. Soniwch am ddigwyddiadau a dyddiadau allweddol**
Defnyddiwch galendr digwyddiadau WOW i ddysgu am wahanol weithgareddau a digwyddiadau teithio llesol drwy gydol y flwyddyn a'u hyrwyddo.

**5. Hyrwyddwch gerdded a theithio llesol**
Anogwch eich cyd-ddisgyblion i gerdded/troelli, sgwtera, seiclo neu barcio a cherdded cymaint â phosibl fel y gallan nhw i gyd ennill bathodyn.



**Pob Lwc!**

**LIVINGSTREETS.ORG.UK/WOWAMBASSADOR**

**Cymerwch ran ar y cyfryngau cymdeithasol: #LLYSGENNADWOW**

X @LIVINGSTREETS   f LIVINGSTREETSUK   LIVINGSTREETS

Mae Living Streets (The Pedestrians' Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif. 1108448 (Cymru a Lloger) a SC039808 (Yr Alban),
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant (Cymru a Lloger), Rhif Cofrestru Cwmni), 5368409.